# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG**

Dyddiad ac Amser

**5.30 y.h., DYDD MAWRTH, 7FED MAWRTH, 2023**

Lleoliad

**Rhithiol ar Zoom**

***(i gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)***

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 27 Chwefror 2023)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Lleol |
| Gwilym Jones | Aelod Lleol |
| June Jones | Aelod Lleol |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Llywelyn Rhys | Cynrychioli Cyngor Tref Porthmadog |
| [I'w gadarnhau] | Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir |
| [I'w gadarnhau] | Cynrychioli Buddiannau Harbwr |
| Dr John Jones-Morris | Cynrychioli Buddiannau Hamdden |
| Ian Roberts | Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol |
| Robert Owen | Cynrychioli Buddiannau Masnachol |
| Chris Fisher | Cynrychioli Sefydliad Bad Achub Cricieth |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Desmond George | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| David Williams | Dirprwy - Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Stephen Tudor | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd.

## 4. COFNODION — 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2022 fel rhai cywir.

## 5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI'R HARBWR — 9 - 15

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

## 6. ETHOL SYLWEDYDDION

Ethol sylwedydd i wasanaethu ar yr isod:-

a) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
b) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
c) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli

## 7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 3 Hydref, 2023 (yn ddarostyngedig i’w gadarnhau gan y Cyngor Llawn.)

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG DYDD MAWRTH, 11 HYDREF 2022**

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Gwilym Jones (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd) a Robert Owen (Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Barry Davies (Rheolwr Morwrol), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Malcolm Humphreys (Harbwrfeistr Porthmadog) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Croesawyd y Cynghorydd Gwilym Jones i'w gyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn.

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Gwilym Jones yn gadeirydd ar gyfer 2022/23.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd June Jones yn is-gadeirydd ar gyfer 2022/23.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd) a'r Dr John Jones-Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden).

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Mawrth, 2022, fel rhai cywir.

**7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI'R HARBWR**

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod a gwahoddwyd adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr harbwr.

(1) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad bras i'r pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod o fis Mawrth 2022 i fis Medi, 2022.

Codwyd materion o dan y penawdau isod:-

<u>Cyflwyniad</u>

Gan gyfeirio at Gyfansoddiad y Pwyllgor Harbwr, a gynhwyswyd fel atodiad i'r adroddiad, ac sy'n rhestru aelodaeth y pwyllgor, mynegodd y Rheolwr Morwrol ei bryder bod cyn lleied o gynrychiolwyr gwahanol fuddiannau defnyddwyr yr harbwr yn mynychu'r cyfarfodydd, a nododd ei fwriad i gysylltu â'r cynrychiolwyr hynny i amlygu pwysigrwydd sicrhau mewnbwn eu haelodau, neu ddirprwyon iddynt, er mwyn cael trawsdoriad o sylwadau yn y cyfarfodydd.

<u>Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd</u>

Nododd y Cadeirydd fod Cyngor Tref Porthmadog wedi derbyn llythyr yn ddiweddar yn cwyno fod Badau Dŵr Personol yn dod yn rhy agos i'r lan ym Mae Samson, a holodd a fyddai'n bosib' i'r staff morwrol gael gair gyda'r sawl sy'n gyfrifol.

Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Morwrol:-

- Bod y Gwasanaeth yn rhannu'r pryderon hynny, a bod y staff morwrol wedi delio gyda damweiniau angheuol yn ymwneud â Badau Dŵr Personol, a chychod pŵer hefyd dros y blynyddoedd a fu.
- Bod y Gwasanaeth yn ceisio gwella rheolaeth dros hyn yn yr ardal yma o'r harbwr, yn enwedig dros dymor yr haf, ond bod y digwyddiad dan sylw wedi digwydd ar yr 2il o Hydref, ddeuddydd ar ôl i'r staff morwrol orffen gweithio ar y traethau am y tymor.
- Bod tystiolaeth ffotograffig ar gael o'r digwyddiad, ac y byddai'r Gwasanaeth yn cael gair gyda pherchennog y bad a perchennog y cwmni sy'n darparu hyfforddiant.
- Bod nifer y cwynion ynglŷn a Badau Dŵr Personol a cychod pŵer yn lleihau'n gyffredinol, oedd yn dangos bod rheolaeth y Gwasanaeth o'r sefyllfa, ac ymddygiad pobl, yn gwella.
- Os na all y cyhoedd neu staff dynnu sylw gyrrwr bad sy'n gyrru'n anghyfrifol neu'n rhy agos at y lan, bod gan y Cyngor system gofrestru mewn lle fel bod modd adnabod y perchennog yn weddol gyflym. Cytunid nad oedd bob amser yn hawdd gweld y rhif cofrestru, ond roedd y gyrrwr yn siŵr o ddod i'r lan yn rhywle.
- Bod Robert Owen, fel cynrychiolydd y diwydiant yma ar y pwyllgor, yn rhagweithiol yn hybu defnydd cyfrifol a da o'r badau.
- Bod PWC Gwynedd wedi cynnal digwyddiad y 'Black Rock Blast' i hyrwyddo ymddygiad cyfrifol a diogel o Fadau Dŵr Personol. Hefyd, roedd y Cyngor yn rhannu tystiolaeth o ymddygiad anghyfrifol gyda PWC Gwynedd fel bod modd iddynt ei roi ar eu safle we.
- Ei bod yn anodd plismona ar hyd a lled yr arfordir, ac er bod gan y Gwasanaeth gwch yn Harbwr Porthmadog, nid oedd modd ei gael allan bob tro. Fodd bynnag, ceisid gwella ar hynny ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- Bod Cynghorau Môn a Chonwy wedi mabwysiadu system cofrestru badau fel sydd yn bodoli yng Ngwynedd ers blynyddoedd, a byddai'n dda petai hyn yn dod yn drefniant statudol, cenedlaethol fel ei bod yn ofynnol i bob bad gael ei gofrestru.
- Bod y Cyngor Tref wedi anfon llythyr yr achwynydd ymlaen ato, a'i fod wedi gofyn i'r Harbwrfeistr a'r Uwch Swyddog Harbyrau ddarparu ymateb cynhwysfawr ar ran yr Awdurdod Harbwr.

Holodd y Cadeirydd pa mor aml roedd cwch yr Heddlu yn galw yn yr harbwr. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Morwrol:-

- Mai anaml iawn oedd hynny'n digwydd, ond bod yr Heddlu wedi bod yn cynnal ymgyrch cyhoeddusrwydd yn yr ardal yn ystod tymor yr haf.

- Bod swyddog o Cyfoeth Naturiol Cymru ar fwrdd y cwch, ynghyd â heddweision a deifwyr.
- Bod y cwch yn gweithredu allan o Gilgwri, Manceinion a Lerpwl yn bennaf, ac yn cyfro Gogledd Orllewin Lloegr hefyd.

Nododd y Cadeirydd ei bod yn ymddangos bod lefel y llaid wedi codi yn yr harbwr, a holodd pryd y cafodd yr harbwr ei garthu ddiwethaf. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Morwrol:-

- Bod 28 mlynedd ers pan gafodd yr harbwr ei garthu ddiwethaf.
- Bod unrhyw gynnydd yn lefelau gwely'r môr yn mynd i amharu ar gychod mewn rhai rhannau o'r harbwr.
- Bod datblygiad y pontŵn wedi arafu a newid llif y dŵr. Roedd llaid yn cael ei adael ar ôl pan mae'r llanw yn mynd allan o'r harbwr, ac roedd llaid sy'n dod i lawr yr afon yn cael ei adael yn yr harbwr hefyd.
- Bod y llaid yn debygol o gynyddu nes cyrraedd ei ecwilibriwm, a chredid nad oedd y sefyllfa'n bell o gyrraedd hynny bellach.
- Credid nad oedd y llaid yn amharu ar yr hyn sy'n digwydd o fewn yr harbwr o ran yr elfen statudol, gan fod y mordwyo yn dal i gael ei oruchwylio'n rheolaidd a'r bwiau yn dal i gael eu gosod yn y llefydd cywir.
- Cydnabyddid bod y sefyllfa'n anhwylus i rai cychod oedd wedi arfer mynd allan ar unrhyw lefel llanw o fewn rheswm, ond roedd hynny'n ddisgwyliedig.
- Pan gafodd yr harbwr ei garthu ddiwethaf, defnyddiwyd loriau, gyda pheiriannau'n codi'r llaid i'r loriau, ond nid oedd y ddeddf yn caniatáu gwneud hynny bellach. Hefyd, byddai'n rhaid i'r llaid fynd i safle gwastraff gofrestredig.
- Y byddai'r gost o garthu'r harbwr tua £500,000 neu ragor.
- Efallai bod modd edrych yn y flwyddyn neu ddwy nesaf ar y posibilrwydd o bwmpio dŵr i mewn i'r harbwr i geisio symud rhywfaint o'r llaid. Gallai'r Clwb Hwylio eu hunain wneud hynny oherwydd bod yr holl incwm o'r pontwns yn mynd i'r Clwb.
- Bod yna hefyd bocedi o laid yn y waliau ar ochr y cei, ond byddai'r broses o'i waredu yn sylweddol.
- Bod y Gwasanaeth yn parhau i fonitro'r sefyllfa, ond nid oedd yna unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i wneud gwaith carthu yn Harbwr Porthmadog.

Nododd y Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol:-

- Nad oedd wedi sylwi bod lefel y llaid yn waliau'r harbwr wedi newid o gwbl mewn 45 mlynedd.
- Na chredai y byddai carthu yn cael unrhyw effaith gan y byddai'r llaid yn dychwelyd i'r harbwr ymhen amser.

<u>Materion Ariannol</u>

Nododd y Rheolwr Morwrol fod cyllideb ddiweddaraf yr harbwr fel a ganlyn, ac y byddai'n cylchredeg y wybodaeth i'r aelodau yn dilyn y cyfarfod:-

| Grŵp | Disgrifiad | Cyllideb £ | Gwariant hyd at 31/03/21 £ | Gor(Tan) Wariant £ |
|---|---|---|---|---|
| Staff | Costau Staff | 63,530 | 67,132 | 3,602 |
| Eiddo | Tiroedd ac Eiddo | 24,440 | 22,898 | (1,542) |
| Trafnidiaeth | Cwch a Cherbydau | 670 | 919 | 249 |
| Offer a | Offer a Chelfi | 12,120 | 7,006 | (5,114) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Chelfi | | | | |
| Incwm | Incwm Harbwr | (73,830) | (61,619) | 12,211 |
| Cyfanswm | Cyfanswm | 26,930 | 36,337 | 9,407 |

Nododd ymhellach y gobeithid gallu lleihau'r gorwariant o £9,407 yn erbyn cyllideb y flwyddyn ariannol bresennol drwy wneud llai o wariant o dan y pennawd Eiddo.

Ffioedd a Thaliadau

Nododd y Rheolwr Morwrol:-

- Na dderbyniwyd y ffigurau chwyddiant gan yr Uned Gyllid eto, ond na fyddai'r ffigurau hynny mor isel ag yn y blynyddoedd a fu.
- Na ddymunid codi'r ffioedd mor uchel fel bod neb yn gallu fforddio angori yn Harbwr Porthmadog, ond byddai'n rhaid asesu'r ffigurau a'r ffioedd yn realistig er mwyn gweld oes yna ffyrdd amgen o gynyddu incwm yr harbyrau.
- Bod angen edrych ar ardal Borth y Gest oherwydd y gallai'r elfennau yna fod ychydig yn is na'r hyn fyddai'r farchnad yno'n gallu ysgwyddo. Gan hynny, roedd bwriad i gynyddu ffioedd yn yr ardal yna, ond ni fyddai'n cael effaith niweidiol dros ben ar y cwsmeriaid sydd yna.
- Y byddai angen edrych ar ffioedd lansio a ffioedd cofrestru ac elfennau costau Morfa Bychan hefyd, o bosib'.
- Unwaith y byddai ffigurau ac argymhellion cadarn ar gael, byddai modd eu cylchredeg i'r aelodau y tu allan i gyfarfod pwyllgor ffurfiol, gan hefyd ymgynghori â'r Aelod Cabinet at y dyfodol.

(2) Adroddiad yr Harbwrfeistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Medi 2022, gan gynnwys materion cynnal a chadw.

Codwyd materion o dan y penawdau isod:-

Materion Mordwyo

Holwyd beth oedd canfyddiadau archwiliad blynyddol Tŷ'r Drindod o gymorthyddion mordwyo yn yr harbwr a dynesfa'r sianel. Mewn ymateb, nododd yr Harbwrfeistr nad oedd unrhyw faterion wedi codi ym Mhorthmadog, nac mewn unrhyw harbwr arall. Ychwanegodd y Rheolwr Morwrol fod y Gwasanaeth wedi gweithio i wella'r cymorthyddion mordwyo, a bod y ffaith nad oedd yna faterion yn codi ym Mhorthmadog nac mewn unrhyw harbwr arall, yn glod i'r harbwrfeistri.

Nododd y Rheolwr Morwrol fod yna rai pethau wedi codi ar asedau nad oedd y Gwasanaeth yn gyfrifol amdanynt, ond fel awdurdod goleudai lleol, bod dyletswydd ar y Gwasanaeth Morwrol i ddilyn y rhain i fyny gyda thrydydd parti. Roedd y Gwasanaeth wedi bod yn ceisio gwneud hynny ers rhai blynyddoedd heb lwyddiant, ac roedd yn bwysig bod y trydydd parti yn cymryd hyn o ddifri'.

Cynnal a Chadw

Nododd yr Harbwrfeistr:-

- Y rhoddwyd caniatâd i glwb rhwyfo newydd ym Mhorthmadog storio cwch rhwyfo yng nghefn yr harbwr.
- Mai'r gwaith yng nghefn yr harbwr fyddai un o'r prosiectau mwyaf dros y gaeaf.
- Bod cwch y 'Dwyfor' angen llafn gwthio newydd a'i glanhau, a bod yna waith cynnal a chadw i'w wneud ar y Bwi Tramwyo hefyd.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y pwyllgor, i'r grwpiau ac unigolion lleol fu'n ymgymryd â gweithgareddau glanhau traethau ar draeth y Graig Ddu.

Diolchodd y Rheolwr Morwrol i'r Cadeirydd a'r Cynghorydd Nia Jeffreys am eu diddordeb yn y Gwasanaeth, ac ym Morfa Bychan a'r harbwr, gan fynegi ei obaith y byddai hyn yn parhau i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.**

**8. ETHOL SYLWEDYDDION**

Gwahoddwyd y pwyllgor i ethol sylwedydd i dderbyn gwybodaeth, neu fynychu cyfarfodydd y 3 phwyllgor harbwr arall.

**PENDERFYNWYD gan fod cyn lleied o aelodau'n bresennol yn y cyfarfod hwn, gohirio ethol sylwedydd i wasanaethu ar Bwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau Aberdyfi, Abermaw a Phwllheli am y tro, a chysylltu â'r holl aelodau mor fuan â phosib' i wahodd unrhyw rai sydd â diddordeb i roi eu henwau ymlaen.**

**9. CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 7 Mawrth, 2023.

Ar derfyn y cyfarfod, nododd y Rheolwr Morwrol mai hwn, o bosib', fyddai ei gyfarfod olaf o'r pwyllgor gan ei bod yn bur debyg y byddai'n gadael cyflogaeth y Cyngor yn gynnar yn 2023. Fodd bynnag, roedd yn gobeithio gallu parhau i gefnogi ei gyd-weithwyr i baratoi ar gyfer y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth.

Diolchodd y Cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor i'r Rheolwr Morwrol am ei holl waith ar hyd y blynyddoedd. Nodwyd ei fod yn swyddog proffesiynol, cydwybodol a phrofiadol oedd bob amser yn barod i gynnig arweiniad ac i helpu a gwrando. Roedd hefyd wedi datblygu'r Gwasanaeth Morwrol dros nifer o flynyddoedd, ac roedd ôl ei waith caled yn glir ar y Gwasanaeth. Nodwyd y byddai colled enfawr ar ei ôl, a dymunwyd yn dda iddo i'r dyfodol.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.30 y.h. a daeth i ben am 6.40 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog.** |
| **DYDDIAD** | **7 Mawrth 2023** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbwr** |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y flwyddyn a ddaw i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2023, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

**2. Angorfeydd Porthmadog a Chofrestru Cychod**

2.1 Fel yn y blynyddoedd diwethaf, rhagwelir y cynhelir archwiliad tanddwr o'r angorfeydd yn yr harbwr cyn y Pasg, yn amodol i ymrwymiadau'r contractwr angorfeydd a chyflwr y tywydd a'r llanw ar y pryd.

2.2 Bydd system gofrestru Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol Cyngor Gwynedd yn parhau i gael ei gweinyddu drwy drefniant ar-lein, gan ganiatáu i gwsmeriaid ddewis y lleoliad mwyaf addas i gasglu caniatâd cofrestru a lansio. Yn dilyn llwyddiant y trefniant hwn, hyderir y gallwn yn awr ganiatáu i gwsmeriaid angorfeydd gadarnhau a thalu am eu hangorfa yn yr harbwr drwy system ar-lein gyffelyb.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

3.1. Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

3.1.1 Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o randdeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.1.2 Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau yn rheolaidd ar ei gynnwys, er mwyn iddo gael ei adolygu'n berthnasol i weithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Porthmadog.

3.1.3 Mae'n bryd i'r Gwasanaeth adolygu a diweddaru'r Cod Diogelwch Morol eleni i sicrhau safonau diogelwch yn harbyrau Gwynedd a bod y rhain yn cael eu cadw. Yn ogystal, disgwylir y bydd archwiliad allanol o'r cod yn cael ei gynnal yn nes ymlaen yn y flwyddyn gan yr unigolyn a ddynodwyd sef, Capten Matthew Forbes, Harbwrfeistr Conwy.

**4. Materion Staffio.**

4.1 Mae staff yr harbwr wedi parhau i weithio o swyddfa'r harbwr drwy gydol y gaeaf i sicrhau diogelwch yr harbwr.

4.2 Mae'r Harbwrfeistr a'i gymhorthydd wedi ymgymryd â rhaglen o waith cynnal a chadw dros y gaeaf yn yr harbwr, yn ychwanegol at ddarparu cymorth o ran y gwaith sydd ei angen yn Harbyrau Aberdyfi ac Abermaw. Bydd rhagor o waith yn cael ei ymgymryd yn benodol mewn perthynas ag angorfeydd yr harbwr a'r marciau mordwyo cyn dechrau cyfnod prysur yr haf.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Trafodir crynodeb bras o gyllidebau'r harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol yn y cyfarfod gan y Prif Swyddog Morwrol newydd.

5.2 Yn ystod y cyfnod hwn, bu'n rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod;

- Cynnal a chadw cymhorthion mordwyo a goleufeydd
- Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cychod patrôl yr Harbwr
- Cynnal a chadw'r tiroedd a'r celfi stryd
- Prynu a chynnal a chadw offer a chyfarpar gan gynnwys offer diogelwch

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2023/24.** Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn aros am gadarnhad o ran y ffioedd a'r taliadau drafft i Harbwr Porthmadog, ynghyd â Chychod Pŵer a badau dŵr personol a ffioedd lansio am dymor 2023/24. Yr arwyddion presennol yw bydd ffioedd a thaliadau angorfeydd yn gyffredinol yn codi o 6%.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Mae Harbwrfeistr Porthmadog wedi darparu crynodeb byr o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng Hydref 2022 a Mawrth 2023, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad wedi'i atodi.

| DG53 - HARBWR PORTHMADOG | | 01/04/2022 hyd at 31/03/2023 | | | |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| **GRWP** | **CYFRIF** | **DISGRIFIAD** | **CYLLIDEB** | **GWARIANT A RHAGWELIR HYD AT 31/03/2023** | **GOR (TAN)** |
| Staff | AGWE | Costau Staff | 66,590 | 69,691 | 3,101 |
| | | | | | |
| Eiddo | BEID | Tiroedd ac Eiddo | 24,440 | 15,919 | (8,521) |
| | | | | | |
| Trafnidiaeth | CTRA | Cwch a Cherbydau | 670 | 990 | 320 |
| | | | | | |
| Offer a Chelfi | DCYF | Offer a Chelfi | 12,120 | 12,115 | (5) |
| | | | | | |
| Incwm | INCM | Incwm Harbwr | (73,830) | (63,129) | 10,701 |
| | | | | | |
| Cyfanswm | CYF | Cyfanswm | 29,990 | 35,587 | 5,597 |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **7 Mawrth 2023** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **M. Humphreys, Harbwrfeistr Porthmadog** |

## H 1 Materion Mordwyo

1.1 Mae staff yr harbwr wedi parhau i fonitro cwrs y sianel fordwyo dros gyfnod yr gaeaf. Yn ei hanfod, nid yw cwrs y sianel wedi newid. Er hynny, yn ddiweddar mae deinameg yr afon mewn cysylltiad â llif y llanw, wedi gweld y fynedfa i'r sianel tua'r môr yn dechrau symud yng ngheg yr afon i gyfeiriad Cricieth.

1.2 O'r herwydd, pe byddai'r tueddiad yma'n parhau, bydd angen adolygu lleoliad presennol cymhorthydd mordwyo Llaw Rhif 2 Port. Yn ychwanegol, efallai y bydd angen defnyddio cymhorthydd mordwyo Llaw Rhif 3 Starboard sydd ar hyn o bryd wedi ei ddosbarthu fel bwi achlysurol, i gynorthwyo morwyr yn ardal mynedfa'r sianel.

1.3 Ar hyn o bryd, mae un Hysbysiad Lleol i Forwyr mewn grym:

1.3.1 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 11/22. Mae Cymhorthydd Mordwyo Llaw Rhif 2 Port oddi ar ei safle ar hyn o bryd yn 52° 53.132'N - 004° 09.742'W

1.3.2 Ar ôl ei adfer o draeth Harlech, mae cymhorthydd mordwyo Llaw Rhif 2 Port wedi'i atgyweirio ac yn barod i'w osod yn ei le. Bydd yn cael ei ddychwelyd i'r sianel cyn gynted â phosib a'i osod mewn lleoliad addas pan fo digon o staff ar gael a bod y tywydd yn ffafriol ac amodau'r llanw yn caniatáu.

1.4 Bydd staff yr Harbwr yn parhau i fonitro llwybr y sianel a symud y cymhorthion mordwyo pan a phryd fo angen i sicrhau eu bod yn darparu'r llwybr mwyaf diogel i mewn ac allan o'r harbwr. Gyda'r gwanwyn ar ei ffordd, hyderwn y bydd llwybr y sianel fordwyo yn ymsefydlu.

1.5 Ar 24 Ionawr 2023 daeth arolygydd o Dŷ'r Drindod i'r harbwr i gynnal archwiliad o bresenoldeb a swyddogaeth y cymhorthion mordwyo lleol o dan reolaeth Cyngor Gwynedd. Yn dilyn yr archwiliad, derbyniwyd adroddiad oedd yn nodi fod popeth mewn trefn ac nid oedd unrhyw faterion yn codi oedd angen sylw pellach.

1.6 Atgoffir morwyr o'r angen i fordwyo'r sianel 1.5 awr naill ochr i'r penllanw wrth fordwyo llong gyda dyfnder mwy nag 1.5 metr. Rydym hefyd yn atgoffa morwyr y dylid cysylltu â swyddfa'r harbwr cyn cyrraedd i dderbyn y wybodaeth fordwyo ddiweddaraf. Bydd newidiadau i unrhyw gymhorthion mordwyo yn cael eu cylchredeg drwy Hysbysiad Lleol i Forwyr.

## H 2 Materion Gweithredol

2.1 Trwy gydol y gaeaf, mae symudiadau llestri yn nynesfeydd yr harbwr a'r sianel wedi bod yn gyfyngedig iawn.

2.2 Yn ystod y gaeaf a stormydd y gaeaf fe wnaeth dau gwch oedd wedi angori ar y Cei Newydd (South Snowdon Wharf) ac un cwch pŵer a angorwyd yn yr harbwr mewnol dderbyn dŵr môr a chael eu boddi. Cafodd y tri llestr eu hadfer wedi hynny a'u hail-arnofio heb unrhyw lygredd i ddyfroedd yr harbwr.

2.3 Rhagwelir y bydd y llestri hynny sydd ar y lan yn yr iard gychod yn dychwelyd yn raddol i'r dŵr wrth i gyfnod y Pasg gyrraedd. Yn ôl nifer yr ymholiadau a wnaed yn swyddfa'r harbwr dros y gaeaf o ran argaeledd angorfeydd, mae'r gwasanaeth yn gobeithio cael tymor prysur, er effeithiau parhaus coronafeirws.

2.4 Yn unol â gofynion yr Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau ar 14 Chwefror 2023, aeth staff darparwr cymeradwy wedi'i benodi i ymateb i ollyngiad olew eilaidd, ati i osod bŵm dal ar draws mynedfa'r harbwr mewnol mewn cydweithrediad gyda staff yr harbwr.

2.4.1 Diben yr ymarfer hwn oedd adolygu a diweddaru'r 'cynllun bŵm' i'r harbwr, pe byddai digwyddiad llygredd olew ar raddfa fawr yn digwydd, fel rhan o gynllun ymateb brys yr harbwr i lygredd olew.

## H 3 Cynnal a Chadw

3.1 Disgwylir y bydd gwaith cynnal a chadw ar angorfeydd yr harbwr yn cael ei gynnal cyn i'r tymor prysur ddechrau, yn dilyn archwiliad tanddwr o gyflwr yr angorfeydd presennol sydd yn yr harbwr.

3.2 Bydd dwy ysgol newydd yn cael eu gosod ar ochr y cei yn lle'r rhai nad oes modd eu trwsio, ger wal y cei. Mae'r gwaith o gynhyrchu'r ysgolion yn cael ei wneud gan weithiwr metel lleol ac rydym yn aros i'r ysgolion gyrraedd.

3.3 Mae'r cwch MV Dwyfor ar hyn o bryd yn derbyn gwaith cynnal a chadw gan staff yr harbwr. Gosodir propeler newydd ar y cwch cyn y tymor prysur ac mae ymholiadau yn digwydd ar hyn o bryd am hyn gyda chwmni morol yng Nghaernarfon.

3.4 Mae cwch patrôl Powercat yr harbwr, sydd wedi'i godio i weithio ar y môr yn y broses o dderbyn dwy injan allfwrdd newydd. Mae’r gwaith yn cael ei wneud gan gwmni lleol ym Mhorthmadog.

3.4.1 Oherwydd newid yn y Rheoliadau codio cychod, mae bellach angen i'r cwch 'Powercat' dderbyn asesiad ar ei wneuthuriad cyn y gellir cwblhau'r trefniadau codio cychod. Bydd yr asesiad yn cael ei ymgymryd gan gorff ardystio cymeradwy, ar ran Llywodraeth y DU, i wirio ei fod yn cydymffurfio gyda'r safonau rheoleiddio.

3.4.2 Yn dilyn yr asesiad, rhagwelir y bydd y cwch 'Powercat' yn barod i weithredu ar y môr unwaith yn rhagor mewn pryd ar gyfer y Pasg.

3.5 Tynnwyd y cwch gweini bychan, a ddefnyddir gan staff yr harbwr, o'r dŵr ar gyfer gwaith cynnal a chadw blynyddol. Bydd y cwch yn barod mewn da bryd ar gyfer y Pasg.

3.6 Rydym yn parhau i adnewyddu'r meinciau o gwmpas yr harbwr ac mae rhagor o waith sydd angen ei gwblhau. Mae'r gwasanaeth yn parhau i dderbyn ceisiadau i leoli meinciau o gwmpas yr harbwr, gyda ond llefydd cyfyngedig ar gael.

**H 4 Materion Eraill**


4.1 **Traeth Morfa Bychan.** Mae'r gwasanaeth wedi derbyn hysbysiad yn mynegi'r angen i gludo trawsnewidydd mawr ar long, i'w gludo ymlaen i orsaf bŵer Trawsfynydd. Yn debyg i'r modd y cludwyd trawsnewidydd cyffelyb ar 16 Medi 2020, disgwylir i'r llong fydd yn cludo'r offer ar y môr lanio ar draeth Morfa Bychan ddiwedd mis Mehefin / dechrau mis Gorffennaf 2023, pan fo cyflwr y llanw ar ei orau. Bydd y trawsnewidydd wedyn yn cael ei gludo ar y ffordd i'r orsaf bŵer.

4.2 Unwaith eto bu'n rhaid i staff yr harbwr fynd i'r brif fynedfa i'r traeth ar sawl achlysur yn ystod y gaeaf i hel a chlirio sbwriel a gwastraff cyffredinol a daflwyd yn ddi-drefn o amgylch y biniau gwastraff ger y toiledau.

H5 **Digwyddiadau**

5.1 Er i ni ragweld hyn, nid yw'r Gwasanaeth wedi cael gwybod am unrhyw ddigwyddiadau arfaethedig yn Harbwr Porthmadog eleni. Dymuna'r Gwasanaeth atgoffa trefnwyr digwyddiadau o'r angen i roi gwybod ymlaen llaw am unrhyw ddigwyddiad arfaethedig i ni er mwyn iddynt dderbyn caniatâd.

5.2 Wrth ystyried caniatáu unrhyw ddigwyddiad, bydd y Gwasanaeth yn rhoi sylw dyladwy i'r sefyllfa o ran unrhyw gyfyngiadau, amodau i'w gosod neu derfynau sydd eu hangen i sicrhau diogelwch y cyhoedd a'r staff.


Harbwr Porthmadog Harbour
Mae'r sianel yn newid ei chwrs yn rheolaidd, cynghorir bod morwyr yn cysylltu efo'r Harbwrfeistr ym Mhorthmadog am y wybodaeth ddiweddaraf
The channel changes it's course on a regular basis, it's adviced to contact the Harbourmaster at Porthmadog for the latest information.
01766 512927 / 07879 433 147, VHF 12/16
Borth y Gest
Cei Balast
17 FLG 6s
15 FLG 2 5s
Bae Samson
12 FLR 4s
27/01/2023
13 FLG 2s
Cwt powdr
Powder house
Traeth y Graig Ddu
Black Rock Sands
11 FLG5 20s
Banc y Gogledd
North bank
10 FLR 2.5s
Cynghorir morwyr i beidio mordwyo dros y draethell oni bai fod o fewn 2 awr pob ochor i'r pen llanw, cychod gyda draft fwy na 1.5 i fod fewn 1.5 awr bob ochor i'r pen llanw.
9 FLG 4 15s
The channel should not be used at any time other than 2hrs either side of high water,vessels with a draft greater than 1.5m should only use the channel 1.5 hrs either side of high water
6 FLR 3 10s
Trwyn Harlech Point
N
FAIRWAY
LFLW 10s
52 52.970 N 004 11.200 W
5 FLG 2 5s
Rhybydd / Caution
Nid yw gael ei ddefnyddio ar gyfer mordwyo
Not to be used for navigation
4 FLR 2 5s
1 FLG